LlG35.S.139

# YR ANWYL O. R. OWEN



Ganwyd Mawrth 28ain, 1854, yn y Gelli, ger Glynarthen, Sir Aberteifi. Addysgwyd yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin. Ordeiniwyd yn weinidog ar eglwys yr Annibynwyr yng Nglandwr, Penfro, Mai, 1873, lle y llafuriodd gyda llwyddiant mawr am 31 o flynyddoedd. Hydref 13eg, 1878, corffolwyd Eglwys Cefnpant, lle y llafuriodd hefyd gyda llwyddiant mawr hyd 1904.

Symudodd i Lerpwl, Mawrth, 1904, i gymeryd gofal eglwys barchus Park Road, lle y treuliodd fisoedd blin ei gystudd ynghanol caredigrwydd parchus anwyliaid ei ofal. Hunodd mewn tangnefedd Tachwedd 1af, 1908, a chludwyd ei weddillion i gladdfa'r teulu yng Nglandwr. Gadawodd weddw a phump o blant mewn galar dwys ar ei ol.

"Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau: mewn hedd ac uniondeb y rhodiodd gyd â mi, a llawer a drodd efe oddiwrth anwiredd."—Micah ii, 6.

I.

MAE O. R. OWEN fry yng ngwawl
Ei gartref gwyn,
Am rasau'r groes yn dyblu'r mawl
Ar Seion fryn,
A gwêl y Gwr fu ar y pren
Ei ddelw yn ei galon wen.

II.

Colledwyd Cymru;—ingol frâth
Yw'r arwyl hon;
Fel perlau'n brin y mae ei fath;
Mor bur ei fron,
Delweddid purdeb yn ei hoen,
Un tebyg iawn i'r Addfwyn Oen.

III.

Yn nwyrain euraidd boreu oes
Yn laslanc llon,
Ymlosgai cenadwri'r groes
O dan ei fron;
Mor debyg oedd i'r Iesu mâd
Ynghylch y pethau am ei Dad.

IV.

Fel Timothëus canfyddodd nef
Yn ffydd ei fam,
Hon ymddatblygodd ynddo ef
Nes rhoddi'r cam
O'i sedd i bwlpud Hawen dêg
Yn laslanc pedair-blwydd-ar-ddeg.

V.

Yn ddeunaw oed aeth i Glandwr
Yn gennad hedd,
Gan ymsefydlu ar y tŵr,
Ac yn ei wedd
Fe adlewyrchid lliwiau'r wawr
Ddoent dros fagwyrydd nef i lawr.

VI.

Uchelgais fawr ei fywyd fu
Pregethu'r groes,
Er meddu doniau grymus lu,
Prif waith ei oes;
Am ddeugain mlynedd lawn o'r bron
Fu galw'r byd dan gysgod hon.

VII.

O'r deugain hyn, un rhan o ddeg,
Bu yn Park Road,
A gorphen wnaeth ei yrfa dêg
Dan goron clôd,
Ond erbyn hyn mae'r goron glain
Wrth draed y Gwr fu'n gwisgo'r drain.

VIII.

Ei fron oedd gartref calon fawr,
Rhinweddol dlôs,
Ei drem oedd fel plygeiniol wawr
Yn gwasgar nos;
Yr oedd y gwreiddyn—mewnol hedd—
Yn tyfu'n flodau ar ei wedd.

IX.

Hawddgarwch befrai yn ei drem
Yn burdeb gwyn;
Cymeriad oedd rinweddol em
Tu yma'r glyn;
Rhinweddau cun yng nghlorian moes
Bron mewn cydbwysedd fu ei oes.

X.

Ei bersonoliaeth gref oedd falm
I'n clwyfau cudd,
A'i ymadroddion mwyn fel Salm
I'r galon brudd;
Yr oedd ei bresenoldeb ef
Yn creu awyrgylch fel y nef.

XI.

Ei lais melusber, treiddgar, mor
Naturiol lwys
Ag anthem moroedd cariad Iôr,
Cydgordiai'n ddwys;
A dweyd ei brofiad byddai ef
Uwchben achubol râs y nef.

XII.

Fel coedwig yn yr awel fwyn
Dan wlith y wawr
Bu'r lluoedd, pan oedd ef yn dwyn
Y nef i lawr;
Roedd gwawl gogoniant yn ei drem
Wrth son am Faban Bethlehem.

XIII.

Os ar ei fin y rhewa'r gwaed
Yng ngaua'r glyn,
Tyf blodau rhin yn ol ei draed
Ar fro a bryn;
Brydferthant eto lwybrau plant
Park Road, Glandwr, a Chefnpant.

XIV.

Ynghylch Glandwr yn fugail mwyn
Ac arwr ffydd,
Lle bu am oes yn porthi'r ŵyn,
Anfarwol fydd,
Os yn y nef at ddewis sant,
Bydd O. R. OWEN gyda'r plant.

XV.

Hebryngodd lu o gylch Glandwr
Hyd niwl y glyn,
Gan roi eu llaw yn llaw y Gwr
Fu ar y Bryn;
Os llaw'r rhai hyn ga yn y nef,
Llaw'r angel glân ollynga ef.

XVI.

Uwch man ei fedd mae gwryddion glwys,
Nid blodau gwyw,
Ond blodau pêr ei eiriau dwys
Yn mynnu byw;
A pheraroglir llethrau'r glyn
Gan flodau ei gymeriad gwyn.

XVII.

Damhegion yr adgofion fyrdd,
Parhaol barch,
Oedd y canghenau bythol wyrdd
O gylch ei arch;
Adgofion mwyn o'i fywyd hardd
A wnant ei fedd o hyd fel gardd.

XVIII.

Ei allor gododd yn y glyn,
A'i emyn glân
Offrymodd arni'n foliant gwyn
Cyn teithio 'mla'n,
A sylweddoli ga'dd yn llwyr
Ei hiraeth—"*Adref yn yr hwyr.*"

*Pil a Chefncribbwr, Ionawr, 1909.*

**T. M. WILLIAMS.**

I'w cael oddiwrth
**T. M. WILLIAMS, Baptist Minister,**
**Kenfig Hill, Glam.**
3d Each Post ~~Free~~

X205312496